# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA678 - The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2016 (Saesneg yn Unig)

### Gweithdrefn

Y Weithdrefn negyddol cyfansawdd

### Cefndir

Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio'r Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 trwy ystyried gofynion newydd yr UE ynghylch ardystio a phrofi cyfarpar adfer anwedd petrol

### Craffu Technegol

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno dan Reol Sefydlog 21.2(ix) mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Offeryn cyfansawdd yw hwn, ac mae yn y Saesneg yn unig. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r esboniad yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, syn dweud:

> "These composite regulations will apply to England and Wales and are subject to negative resolution procedure in the National Assembly for Wales and in both Houses of the UK Parliament. Because the Regulations will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually."

### Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Ymateb y Llywodraeth

Bydd y Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn nau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig. Gan y bydd Senedd y Deyrnas Unedig yn craffu ar y Rheoliadau, ni chredir ei bod yn rhesymol ymarferol i wneud na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**02 Mawrth 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales